Darganfod y trysor

Cysyniadau: **Amynedd, gweledigaeth, hunan aberth, penderfyniad, dyfalbarhad.**

Amcan: **Canolbwyntio ar y chwilio a'r dyfalbarhau.**

Cyfarpar: **Bocs, ticed loteri, pin ffelt, chwyddwydr, Beibl a mwgwd.**

Cyflwyniad:

● Gosod bocs yn ofalus ar y bwrdd. Dangos yr eitemau eraill fesul un. Ticed loteri, pin ffelt, chwyddwydr, Beibl a mwgwd dros y llygaid. Ar ôl dangos y cwbl gofyn i'r plant beth yn eu barn nhw yw thema'r gwasanaeth. Y trysor ydi'r thema.

● Un ffordd o ddod o hyd i drysor ydi ennill y loteri. Dangos y ticed. Bydd llawer o'r plant yn gyfarwydd iawn â hwn. Pa mor debygol ydi rhywun o ennill y jacpot? Yn ôl ystadegau 1:45 miliwn. Mae gennych fwy o siawns i gael eich taro gan fellten nag ennill y loteri!

● Gofyn i blentyn ddod allan a rhoi mwgwd dros ei lygaid. Yna gofyn i hanner dwsin o blant efo gwallt golau ddod allan. Dewis un o'r plant a'r plentyn hwnnw i gydio mewn un blewyn o wallt. Rhoi marc ar y blewyn gwallt efo pin ffelt. Ond rhoi'r mwgwd am lygaid y plentyn i ddechrau.

● Cydio yn y blewyn a'i ddal ar gefndir gwyn a rhoi marc du arno. Os gwn i faint o wallt sydd gan bobl? Mae pobl efo gwallt golau gydag oddeutu 145,000, gwallt tywyll oddeutu 120,000 a gwallt coch 90,000. Dyma'r dasg i'r plentyn â'r mwgwd am ei lygaid. Tybed fedr o ddarganfod y blewyn â marc du arno ymhlith yr hanner dwsin o blant sy'n sefyll o'i flaen? Ar ôl iddo dewis rhoi chwyddwydr iddo er mwyn

iddo weld drosto'i hun ydi o wedi darganfod y blewyn.

● Hanner dwsin o blant a bob un efo oddeutu 145,000 o flew, felly lluosi 145,000 efo 6 yn gwneud 870,000. Dyna i chi pa mor anodd ydi ennill y loteri. Ond maen nhw'n dweud bod y siawns o ennill y 6 rhif yn union 'run fath â darganfod y blewyn cywir o bennau 100 o bobl!

Stori:
Mae gan Iesu stori am ddyn yn darganfod trysor mewn cae. Stori fer iawn ydi hon:

> *Mae teyrnas nefoedd yn debyg i ddyn yn gweithio mewn cae pan ddaeth o hyd i drysor wedi'i guddio yn y cae. Er mwyn cael y trysor mae'n ei guddio. Yna yn ei lawenydd mae'n mynd ac yn gwerthu'r cwbl oedd ganddo a hynny er mwyn prynu'r cae a chael y trysor.*
>
> Mathew 13:44 BCND (aralleiriad)

Trafodaeth:
● Efallai heddiw byddai rhywun yn defnyddio darganfyddwr metel i ddod o hyd i drysor.

● Meddyliwch am y llawenydd o ddarganfod cist yn llawn o aur ac arian. Ond roedd un anhawster mawr. Nid y dyn oedd piau'r cae. Perthyn i rywun arall oedd y cae. Beth oedd o'n mynd i'w wneud? Oedd ganddo ddigon o arian i brynu'r cae? Doedd dim amdani ond cuddio'r trysor a gwerthu'r cwbl oedd ganddo. Y cwbl!

● Roedd prynu'r cae yn ddrutach o lawer na phrynu ticed loteri. Ond sylwch ar y gwahaniaeth. Mae ennill y loteri 'run fath â darganfod un blewyn o wallt ar bennau 100 o bobl. Ond pan brynodd y dyn hwn y cae roedd yn gwybod ei fod wedi taro'r jacpot. Roedd y trysor yno'n barod.

● Ond am pa drysor mae Iesu'n sôn? 'Mae teyrnas nefoedd yn debyg i drysor.' Oes yna rywbeth ar y bwrdd nad ydyn ni wedi sôn dim amdano? Y Beibl.

● Mae'r Beibl yn dangos i ni y math o fyd roedd Iesu eisiau i ni fyw ynddo. Ydych chi'n meddwl y byddai Iesu eisiau i ni fyw mewn byd lle mae pobl yn llwgu am fod pobl eraill yn hunanol? Neu mewn byd lle mae pobl yn ymladd neu fyd lle mae pobl yn gwastraffu ac yn llygru? Mae pobl sy'n gobeithio ennill y loteri yn meddwl eu bod yn mynd i brynu llawer o bethau i'w gwneud yn hapus.

● Mae'r Beibl yn dangos i ni y ffordd orau i fyw.

Emyn: Y mae gennyf drysor: Caneuon Ffydd 399

Munud i feddwl:
'Mae pwy bynnag sy'n darganfod ffrind ffyddlon yn darganfod trysor.'
'Lle bynnag mae dy drysor di y bydd dy galon di.'
Iesu Grist

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, wnei di'n helpu ni i beidio gwastraffu amser yn chwilio am y math anghywir o drysor neu chwilio am y trysor yn y lleoedd anghywir? Dangos i ni beth ydi'r gwir drysor a sut mae dod o hyd iddo. Diolch. Amen.